# Diffygion o ran Llywodraethu a Rheolaeth Ariannol – Cyngor Cymuned Sili a Larnog


Blwyddyn archwilio: 2018-19

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2021

Cyfeirnod y ddogfen: 2573A2021-22

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddo, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru: swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

# Cynnwys

Gan weithredu o dan drefniadau wedi'u dirprwyo ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rwyf wedi cyhoeddi'r adroddiad hwn o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, i dynnu sylw'r cyhoedd at fethiannau sylweddol o ran gwneud penderfyniadau a diffygion o ran rheolaeth ariannol a rheolaeth fewnol yng Nghyngor Cymuned Sili a Larnog.


Adroddiad cryno

Cyflwyniad 4

Canfyddiadau allweddol 5

Argymhellion a'r camau nesaf 7

Adroddiad manwl

Mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r problemau diwylliannol hirsefydlog yn y Cyngor 10

Mae'r Cyngor wedi methu â chadw ei gofnodion cyfrifyddu'n briodol a chynnal system gadarn o reolaeth fewnol yn y flwyddyn 11

Mae'r Cyngor wedi methu â pharatoi ei gyfrifon blynyddol yn amserol fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2004 13

Nid yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon blynyddol a'r dogfennau ategol 16

Oherwydd y diffygion a nodwyd yn ystod fy archwiliad, byddaf yn cyhoeddi adroddiad archwilio amodol sy'n nodi na allaf roi barn ar y cyfrifon a bod y Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian 17

Nid yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer pennu ei gyllideb flynyddol a'i braesept ac ni osododd y Cyngor braesept cyfreithlon ar gyfer 2018-19 na 2019-20 18

Mae honiadau'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn diystyru canfyddiadau'r Archwilydd Mewnol mewn cysylltiad â rheoli risg 21

Atodiadau

Atodiad 1: Honiadau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol 22

# Adroddiad cryno

## Cyflwyniad

1 Paratowyd y ddogfen hon i fy ngalluogi fel Archwilydd Cyffredinol Cymru i ystyried a ddylwn i gyhoeddi adroddiad er budd y cyhoedd o dan adran 22 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004) neu gyhoeddi argymhellion ysgrifenedig o dan adran 25 o'r Ddeddf.

2 O dan adran 22 o Ddeddf 2004, mae'n rhaid imi ystyried a ddylwn, er budd y cyhoedd, wneud adroddiad ar unrhyw fater sy'n dod yn hysbys i mi yn ystod fy archwiliad er mwyn iddo gael ei ystyried gan Gyngor Cymuned Sili a Larnog neu er mwyn iddo gael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd.

### Cyngor Cymuned Sili a Larnog

3 Mae Cyngor Cymuned Sili a Larnog (y Cyngor) yn gwasanaethu'r gymuned ar arfordir Bro Morgannwg, Cymru, sy'n ymestyn o Sili i Larnog. Mae wyth aelod ar y Cyngor Cymuned, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi bod ar y Cyngor ers blynyddoedd lawer.

4 Mae'r Cyngor yn gwario tua £125,000 y flwyddyn ar wasanaethau lleol gan gynnwys rhedeg a chynnal nifer o gyfleusterau gan gynnwys Neuadd y Jiwbilî, pafiliwn chwaraeon, lawnt fowlio a chyfleusterau hamdden eraill. Mae'n ariannu hyn drwy braesept o ryw £88,000 gan Gyngor Bro Morgannwg ac incwm o osod eiddo a ffioedd o tua £30,000. Mae'r Cyngor Bwrdeistref Sirol yn casglu'r praesept drwy dreth gyngor ychwanegol a godir ar drigolion y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cael ei ariannu o'r pwrs cyhoeddus ac mae ei aelodau'n cael eu hethol gan drigolion lleol. Felly, mae'r Cyngor yn atebol i'r etholwyr lleol.

5 Fel arfer, mae cynghorau cymuned fel Sili a Larnog, oherwydd eu natur leol fach iawn, yn dibynnu ar un swyddog allweddol, y Clerc, i reoli eu materion gweinyddol. Yn amlach na pheidio, penodir y Clerc hefyd yng nghymhwyster Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO). Mae'r RFO yn gyfrifol am weinyddu materion ariannol y Cyngor o ddydd i ddydd. Yn benodol, mae hyn yn cynnwys cael a chofnodi incwm, paratoi taliadau â siec i'w llofnodi gan aelodau, cynnal y cofnodion cyfrifyddu a pharatoi'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol.

6 Dros y tair blynedd diwethaf, nid yw'r Cyngor wedi cael Clerc llawn-amser oherwydd atal ac yna diswyddo [1] ei Glerc dros dro. Yn y cyfamser, cyflogodd y Cyngor ddau Glerc/RFO interim rhan-amser o ddiwedd 2017 tan fis Ebrill 2019. Yn dilyn hyn nid oedd gan y Cyngor Glerc/RFO nes i Gadeirydd y Cyngor ar y pryd gael ei benodi i swydd Clerc/RFO di-dâl o fis Gorffennaf 2019. Yn dilyn penodi'r Cadeirydd yn Glerc/RFO, talodd y Cyngor am wasanaethau cyfrifydd i helpu gyda'r gwaith o gadw cyfrifon a gweinyddu o ddydd i ddydd. Parhaodd y trefniant hwn hyd nes y penodwyd Clerc/RFO newydd ym mis Medi 2020.

[1] Bu farw'r Clerc blaenorol yn 2020.

7 Er bod swyddogaeth y Clerc/RFO, yn bodoli, yn ôl y gyfraith [Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (Rheoliadau 2014)], cyfrifoldeb y Cyngor (hynny yw, yr aelodau) yw gwarchod arian y Cyngor, gan gynnwys sicrhau bod ganddo reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon. Mae hyn yn cynnwys pethau megis sefydlu system briodol o reolaeth fewnol, gan gynnwys archwilio mewnol, a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu blynyddol cyn eu cyflwyno i'r archwilydd allanol i gael eu harchwilio.

## Fy ngwaith archwilio

8 Mae fy ngwaith archwilio ar gynghorau tref a chymuned yn canolbwyntio ar ddatganiad blynyddol a gwblheir gan y cynghorau ac a gyflwynir i archwilwyr sy'n gweithio ar fy rhan. Mae'r datganiad blynyddol yn cynnwys y datganiadau cyfrifyddu blynyddol y mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r cyngor eu paratoi a datganiad llywodraethu blynyddol sy'n nodi sut y mae'r cyngor wedi rheoli ei faterion ariannol.

9 Ym mis Mai 2019, cawsom ohebiaeth gan aelod o'r Cyngor yn tynnu ein sylw at gyfnod atal parhaus Clerc y Cyngor a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar redeg y Cyngor a'i enw da fel corff cyhoeddus. Roedd y Clerc wedi'i atal dros dro ar gyflog llawn ers mis Medi 2017 ac roedd pryder ymhlith trigolion lleol am y gost a pha un a ymdriniwyd â'r honiadau am gamymddwyn ariannol yn briodol. Arweiniodd hyn at aseinio'r archwiliad o'r cyfrifon i dîm Archwilio Cymru, yn gweithio o dan fy nghyfarwyddyd i, i ddod â'r cwbl i gasgliad boddhaol. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau bellach.

10 Rwyf nawr yn ystyried a ddylwn i, yng ngoleuni canfyddiadau'r archwiliad o gyfrifon 2018-19, lunio adroddiad er budd y cyhoedd. Mae'r canfyddiadau hyn, sy'n datgelu ymddygiad annerbyniol gan aelodau, llywodraethu gwael a rheolaeth ariannol ddiffygiol, yn cael eu crynhoi isod a'u hystyried yn fanylach yng ngweddill y ddogfen hon.

# Canfyddiadau allweddol

11 Mae gan y Cyngor hanes hirsefydlog o wrthdaro gydag aelodau yn ymladd ymysg ei gilydd. Mae'r sefyllfa wedi'i gwaethygu yn sgil atal y Clerc dros dro ac oherwydd cwynion amrywiol gan aelodau am ymddygiad eu cyd-aelodau, gan gynnwys cyflwyno rhai i'r heddlu. Nid yw wedi gallu dal gafael ar wasanaethau Clerc interim ac mae dau Glerc dros dro wedi gadael eu gwaith gyda'r Cyngor gan nodi ymddygiad afresymol aelodau fel rheswm dros adael. Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi mynd yn gamweithredol er anfantais i'w enw da ymhlith trigolion lleol.

12 Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor lunio ei gyfrifon hyd at 31 Mawrth bob blwyddyn a chyflwyno'r cyfrifon i mi i'w harchwilio. Cyn i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'w harchwilio, mae'n rhaid dilyn y broses ardystio a chymeradwyo ganlynol:

- mae’n rhaid i'r Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO) ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno ei dderbyniadau a'i daliadau a'i sefyllfa ariannol yn briodol; ac
- mae’n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r cyfrifon mewn cyfarfod o'r Cyngor.

Mae’n rhaid cwblhau'r broses hon erbyn 30 Mehefin sy’n dilyn diwedd y flwyddyn ariannol.

13 Ni chymeradwyodd y Cyngor y cyfrifon tan fis Medi 2019. Mae'r cyfrifon wedi'u hardystio gan y cyn-Swyddog Cyllid Cyfrifol dros dro, y Cynghorydd Ian Barlow. Mae'r Cynghorydd Barlow hefyd wedi llofnodi'r cyfrifon yn rhinwedd ei swydd yn gadeirydd y cyfarfod pryd cymeradwywyd y cyfrifon.

14 Nododd fy ngwaith archwilio ddiffygion sylweddol yn systemau ariannol a rheolaeth ariannol y Cyngor. O ganlyniad i hyn, byddaf yn cyhoeddi ymwadiad mewn cysylltiad â fy marn archwilio ar y cyfrifon ar gyfer 2018-19 am y rhesymau canlynol:

- nid yw'r Cyngor wedi cadw cofnodion cyfrifyddu priodol a chyflawn gan gynnwys gwybodaeth ategol ar gyfer y gyflogres;
- nid oes unrhyw dystiolaeth i ddangos bod y cyngor wedi cydymffurfio â'i reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol ar gyfer taliadau mwy i gyflenwyr a chontractwyr; ac
- nid wyf wedi cael cofnodion allweddol sy'n ymwneud ag incwm gosod eiddo y Cyngor ac felly ni allaf ddod i'r casgliad pa un a yw'r incwm a nodir yn y cyfrifon yn gyflawn.

15 Yn ogystal â chyflwyno'r cyfrifon am flwyddyn benodol, ar gyfer y Datganiad Blynyddol mae’n ofynnol i’r Cyngor wneud datganiad ffurfiol mewn cysylltiad â'r trefniadau sydd ganddo ar waith ar gyfer ei drefn lywodraethu a'i reolaeth ariannol. Cyfeirir at hyn fel y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

16 Credaf ei bod yn bwysig nodi mai'r safonau y mae'n ofynnol eu datgelu gan y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yw'r safonau gofynnol y dylai etholwyr Cyngor Cymuned Sili a Larnog ddisgwyl eu gweld yn cael eu cynnal.

17 Ceir crynodeb o honiadau'r Cyngor a wnaed yn ei Ddatganiad Blynyddol ar gyfer 2018-19 yn Atodiad 1 ynghyd â fy asesiad ynghylch pa un a yw'r honiadau a wnaed gan y Cyngor yn cael eu hategu gan y dystiolaeth sydd ar gael i'w harchwilio.

18 Tynnaf sylw at y ffaith bod y Cyngor, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, wedi methu â bodloni rhai o'r safonau hyn.

19 Rwyf hefyd yn pryderu bod y Cyngor wedi darparu sicrwydd sy'n gwrth-ddweud y dystiolaeth sydd ar gael i'w harchwilio. Rwyf wedi amlygu’r meysydd hynny, pan fyddaf yn ystyried bod honiadau'r Cyngor ei fod wedi rhoi trefniadau priodol ar waith yn anghywir.

20 Yr hyn sy'n amlwg i mi yw bod y Cyngor, yn ystod 2018-19, wedi methu â chymryd camau digonol i'w fodloni ei hun bod ei drefniadau llywodraethu yn effeithiol. Nid yw aelodau'r Cyngor wedi cydnabod nac wedi gweithredu'n ddigonol ar faterion sy'n ymwneud â digonolrwydd eu trefniadau llywodraethu.

21 Mae'r canfyddiadau manwl a nodir yn adran nesaf yr adroddiad hwn yn nodi'r diffygion a'r gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor sydd wedi bod yn amlwg i mi yn ystod yr archwiliad.

# Argymhellion a'r camau nesaf

## Argymhellion

22 Rwy'n gwneud naw argymhelliad i'r Cyngor. Nod yr argymhellion hyn yw helpu'r Cyngor i wella ei drefniadau rheoli ariannol a llywodraethu. Mae fy argymhellion i'r Cyngor wedi'u nodi isod.

**Arddangosyn 1: fy argymhellion**

Rwyf yn gwneud naw argymhelliad ar gyfer gwella trefniadau rheoli ariannol a llywodraethu'r Cyngor.

| **Argymhellion** |
|---|
| **Ymddygiad aelodau**<br>A1 Mae'n rhaid i ymddygiad yr Aelodau wella a dylai'r Cyngor geisio cymorth allanol (gan gynnwys hyfforddiant i aelodau) i sicrhau bod cyfarfodydd y cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd drefnus a phroffesiynol. |
| **Clerc a Swyddog Cyllid Cyfrifol (RFO)**<br>A2 Yn amodol ar ganlyniad pob llwybr apêl, mae angen i'r Cyngor sicrhau gwasanaethau Clerc a RFO newydd cyn gynted â phosibl, gan sicrhau ei fod yn cael cymorth ac arweiniad priodol i gyflawni'r swydd. |
| **Paratoi a chymeradwyo cyfrifon**<br>A3 Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Datganiad o Gyfrifon yn cael ei baratoi a'i gymeradwyo'n gywir cyn 30 Mehefin bob blwyddyn ac yna ei anfon yn brydlon at yr Archwilydd Cyffredinol i'w archwilio a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi. |
| A4 Cyn cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod llwybr archwilio digonol rhwng y datganiadau cyfrifyddu a'r cofnodion cyfrifyddu sylfaenol. |

| Argymhellion | |
|---|---|
| **Cofnodion cyfrifyddu** | |
| A5 | Mae’n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn cadw cofnodion cyfrifyddu priodol gan gynnwys ei lyfr arian parod a'i ddogfennau ategol yn unol ag arferion priodol. |
| A6 | Mae’n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod y Clerc yn paratoi cysoniad banc yn rheolaidd ac ar ddiwedd y flwyddyn a'i fod yn adolygu'r cysoniad i sefydlu bod y cofnodion cyfrifyddu’n gyflawn ac yn gywir. |
| **Hawliau etholwyr** | |
| A7 | Mae’n rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn gwneud trefniadau priodol bob blwyddyn i hwyluso etholwyr i arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon a dogfennau ategol wrth archwilio. |
| **Cyllideb flynyddol a praesept** | |
| A8 | Mae’n rhaid i'r Cyngor sicrhau, cyn pennu ei braesept, ei fod yn ystyried cyllideb sy'n nodi ei incwm a'i wariant disgwyliedig ar gyfer y flwyddyn fel y nodir yn Neddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992. |
| **Trefniadau llywodraethu** | |
| A9 | Mae’n rhaid i'r Cyngor sicrhau, cyn iddo roi sicrwydd cadarnhaol yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, ei fod yn archwilio'r honiadau sy'n cael eu gwneud ac yn ystyried yr holl dystiolaeth briodol i gefnogi'r sicrwydd a roddir, gan gynnwys unrhyw adroddiad a ddarparwyd gan yr archwilydd mewnol. |

## Camau a gymerwyd gan y Cyngor

23 Yn ystod y broses glirio, dywedodd y Clerc presennol wrthyf fod y Cyngor wedi cymryd y camau canlynol i fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd gan fy archwiliad:

- penodi Clerc newydd ym mis Medi 2020;
- cytuno i brynu meddalwedd gyfrifyddu i alluogi'r Cyngor i weinyddu ei faterion ariannol yn effeithiol;
- adolygu ei gronfeydd wrth gefn a'i gyllideb; ac
- adolygu ei reolau sefydlog a'i ddefnydd o weithgorau.

24 Nid yw fy nhîm archwilio wedi cynnal unrhyw waith maes ychwanegol i gadarnhau bod y camau hyn wedi'u cwblhau.

## Y camau nesaf

25 Mae adrannau 25 i 27 o Ddeddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymryd camau penodol er mwyn ymateb i fy adroddiad a fy argymhellion.

26 Mae’n rhaid i'r Cyngor nawr drefnu cyfarfod o fewn mis i fy argymhellion gael eu cyhoeddi. Mae’n rhaid hysbysebu'r cyfarfod drwy roi hysbysiad mewn papur newydd lleol. Mae’n rhaid i'r hysbysiad hwn nodi dyddiad ac amser y cyfarfod a diben y cyfarfod, h.y. ystyried yr adroddiad er budd y cyhoedd mewn cysylltiad â gwariant anghyfreithlon a threfniadau diffygiol i sicrhau gwerth am arian.

27 Dylai'r Cyngor nodi bod Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020 wedi'u diwygio'n ddiweddar. O ganlyniad i'r gwelliannau, ni chaniateir i'r cyhoedd gael eu heithrio o gyfarfod a gynhelir o dan ofynion adran 25 o Ddeddf 2004. Bydd angen i'r hysbysiad o'r cyfarfod, os caiff ei gynnal o bell, nodi sut y gall y cyhoedd gael mynediad i'r cyfarfod.

28 Yn y cyfarfod, bydd angen i'r Cyngor benderfynu:

- a yw'r adroddiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd unrhyw gamau;
- a yw'r argymhellion yn yr adroddiad i gael eu derbyn;
- pa gamau (os o gwbl) i'w cymryd mewn ymateb i'r adroddiad a'r argymhellion.

29 Yna bydd angen i'r Cyngor baratoi ymateb ysgrifenedig a chytuno ar eiriad yr ymateb hwnnw gyda mi cyn cyhoeddi ei ymateb mewn papur newydd lleol.

Ann-Marie Harkin

Cyfarwyddwr Gweithredol – Gwasanaethau Archwilio

Ar gyfer ac ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru

Medi 2021

# Adroddiad manwl

## Mae angen gweithredu ar frys i fynd i'r afael â'r problemau diwylliannol hirsefydlog yn y Cyngor

30 Ym mis Mai 2019, cawsom ohebiaeth gan aelod o'r Cyngor yn tynnu ein sylw at gyfnod atal parhaus Clerc y Cyngor a'r effaith yr oedd hyn yn ei chael ar redeg y Cyngor a'i enw da fel corff cyhoeddus. Roedd y Clerc wedi'i atal dros dro ar gyflog llawn ers mis Medi 2017 ac roedd pryder ymhlith trigolion lleol am y gost a pha un a ymdriniwyd â'r honiadau am gamymddwyn ariannol yn briodol.

31 Roedd dau aelod o fy nhîm archwilio yn bresennol mewn cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 11 Mehefin 2019. Roedd ein presenoldeb yn cyflawni dau ddiben:

- cyfarfod ag aelodau i gael eu barn ar y materion a godwyd gyda ni yn yr ohebiaeth; ac
- arsylwi ymddygiad mewn cyfarfod misol o'r Cyngor.

32 Roedd aelodau fy nhîm yn bresennol yn rhan gyhoeddus y cyfarfod a thrwy gytundeb ar y cyd yn bresennol hefyd yn rhan gyntaf y sesiwn gaeedig gydag aelodau. Roedd cynrychiolaeth dda o drigolion lleol yn bresennol yn y rhan agored o'r cyfarfod. Mae hyn yn eithaf anarferol mewn cyfarfod o gyngor cymuned.

33 Er bod cynghorwyr yn ymwybodol o bresenoldeb fy nhîm archwilio yn y cyfarfod, roedd ymddygiad yr aelodau o safon is na'r hyn a ddisgwylir gan gynghorwyr. Mae achosion o ymddygiad gwael yn cynnwys anghytuno chwerw ymhlith aelodau, gyda'r Cadeirydd yn gohirio'r cyfarfod am gyfnod byr. Wrth i ran agored y cyfarfod ddod i ben, dywedodd un o'r trigolion lleol wrthym ei fod wedi bod yn 'gyfarfod da o'i gymharu â rhai eraill'. Dywedodd hefyd fod yr aelodau wedi ymddwyn yn dda oherwydd bod fy nhîm archwilio yn bresennol.

34 Rwyf wedi gweld adroddiad ysgrifenedig ar ran un o'r cyfarfod gan un arall o'r trigolion lleol a oedd yn bresennol. Yn ei adroddiad dywed:

'Yna cafwyd dadl uchel a thanbaid iawn rhwng [y Cadeirydd ac aelod arall] gyda chyfraniadau gan y cynghorwyr eraill. Yn y pen draw, gohiriodd y Cadeirydd y cyfarfod am 5 munud er mwyn i bawb bwyllo. Os bu erioed foment i amlygu'r anghytgord llwyr yn ein cyngor camweithredol, hon oedd hi. Ac yng ngŵydd Swyddfa Archwilio Cymru hefyd!'

35 Wedi hynny, cyfarfu aelodau o fy nhîm archwilio â'r Cyngor, is-grŵp y Cyngor ac aelodau unigol ar sawl achlysur a chanfod eu bod yn gwrtais ac yn barod i gydweithredu.

36 Fodd bynnag, ceir amrywiaeth o dystiolaeth i gadarnhau bod diwylliant camweithredol ac afiach o fewn y Cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- rydym wedi gweld y llythyrau ymddiswyddo a ysgrifennwyd gan ddau Glerc interim diwethaf y Cyngor sy'n cyfeirio at ymddygiad afresymol aelodau fel y rheswm dros eu penderfyniad i adael;

- rydym wedi gweld tystlythyrau gan ddau Gynghorydd a ymddiswyddodd o'r Cyngor, yn crybwyll unwaith eto mai ymddygiad afresymol aelodau eraill oedd y rheswm dros adael;
- rydym wedi gweld llawer o gwynion am aelodau a gyflwynwyd i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, llawer yn cael eu cyflwyno gan gyd-aelodau;
- rydym yn ymwybodol o dri achlysur pan ofynnwyd i'r heddlu ymchwilio i faterion sy'n ymwneud ag ymddygiad aelodau'r Cyngor Cymuned a/neu ei gyn-Glerc;
- rydym wedi siarad â'r Swyddog Monitro yng Nghyngor Bro Morgannwg, sy'n credu, o ganlyniad i'w profiad nhw wrth gefnogi'r Cyngor i ymdrin â chwynion amrywiol, fod yn rhaid i ymddygiad yr aelodau wella; a
- dangoswyd dyfyniadau i ni o dudalennau cyfryngau cymdeithasol lleol lle mae'n amlwg bod gan y Cyngor enw gwael ac mae'n aml yn destun sbort a gwawd.

37 Mae'n amlwg i mi fod yn rhaid i ymddygiad aelodau wella yn y Cyngor, yn enwedig mewn dau faes. Yn gyntaf sut y mae aelodau'n ymddwyn yn ystod cyfarfodydd ffurfiol y Cyngor ac yn ail sut y mae aelodau'n ymgysylltu â'r Clerc. Mae lle i ddysgu oddi wrth eraill, e.e. trwy fynychu cyfarfodydd Cyngor eraill i arsylwi trafodion a mabwysiadu arferion da arferion a pholisïau cyflogaeth.

# Mae'r Cyngor wedi methu â chadw ei gofnodion cyfrifyddu yn briodol a chynnal system gadarn o reolaeth fewnol yn y flwyddyn

## Mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal system gadarn o reolaeth fewnol a chadw cofnodion cyfrifyddu cyfredol

38 Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod system gadarn o reolaeth fewnol sy'n hwyluso arfer swyddogaethau'r corff hwnnw'n effeithiol ac sy'n cynnwys:

- trefniadau ar gyfer rheoli risg; a
- rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

39 Mae rheoliad 6 o Reoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r swyddog ariannol cyfrifol benderfynu ar y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli cyfrifyddu sydd i'w cadw a sicrhau y dilynir y rheolaethau cyfrifyddu a bod y cofnodion cyfrifyddu yn cael eu diweddaru. Mae’n rhaid i'r cofnodion cyfrifyddu gynnwys cofnodion o ddydd i ddydd o'r holl symiau arian a dderbyniwyd ac a wariwyd gan y corff a'r materion y mae'r cyfrifon incwm a gwariant neu dderbyniadau a thaliadau yn ymwneud â nhw a chofnod o asedau a rhwymedigaethau'r Cyngor.

40 Yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Cyngor wedi darparu honiadau cadarnhaol ei fod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn ac wedi cynnal system ddigonol o reolaeth fewnol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei effeithiolrwydd.

## Nododd fy archwiliad nifer o ddiffygion sylweddol yng nghofnodion cyfrifyddu'r Cyngor a'r system rheolaeth fewnol

41 Y cofnod cyfrifyddu craidd a gynhelir gan y Cyngor yw ei lyfr arian parod. Ar adeg fy archwiliad, roedd gan y Cyngor lyfr arian parod cyflawn wedi'i baratoi ar lyfr gwaith Excel.

42 Fodd bynnag, mae adroddiad yr archwilydd mewnol ar gyfer 2018-19 yn nodi'r canlynol:

- nid oedd y llyfr arian parod a ddarparwyd gyntaf ar gyfer yr archwiliad mewnol yn cynnwys dadansoddiad o bob trafodiad a gyflawnwyd gan y Cyngor. Cwblhawyd y gwaith hwn gan y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol; ac
- roedd y llyfr arian parod gwreiddiol a ddarparwyd i'r archwilydd mewnol yn cynnwys 'llawer o wallau' a gywirwyd wedyn.

Yn fy marn i, nid oedd y Cyngor yn bodloni gofynion Rheoliad 6 i gadw cofnodion cyfrifyddu sy'n cynnwys cofnodion o'r holl symiau a dderbyniwyd ac a wariwyd.

43 Tynnodd yr archwilydd mewnol sylw hefyd at ddiffygion o ran cadw arian mân, a arweiniodd at warged arian mân anhysbys o £35.08. Dywedodd yr archwilydd mewnol fod derbyniadau arian parod yn sgil llogi'r neuadd wedi'u defnyddio i ychwanegu at y cyfrif arian mân dan gyfarwyddyd Cynghorwyr.

44 O ran yr arfer o osod y neuadd, nododd yr archwilydd mewnol nad oedd y Cyngor wedi mabwysiadu ei argymhelliad blaenorol i gyflwyno system o anfonebu defnyddwyr y neuadd. Nododd hefyd ddiffygion yn y llyfr derbyniadau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i gofnodi achlysuron o osod y neuadd.

45 Cadarnhaodd fy archwiliad ganfyddiadau'r archwilydd mewnol. Yn fy marn i, nid oes gan y Cyngor reolaethau mewnol digonol i sicrhau ei fod yn cofnodi ac yn bancio'n gywir ac yn gyflawn, bob achlysur o osod y neuadd. Deallaf fod y trefniadau hyn wedi bod ar waith ers cryn amser ac maent yn gadael y Cyngor yn agored i risg o golledion oherwydd twyll.

46 Rheolaeth fewnol bwysig yw cwblhau cysoniad banc yn rheolaidd. Diben cysoniad banc yw profi bod cofnodion cyfrifyddu'r Cyngor yn gyflawn ac yn gywir drwy wirio trafodiadau a gofnodir yn y llyfr arian parod o'u cymharu â thystiolaeth trydydd parti h.y. y datganiadau banc. Bydd y broses gysoni yn nodi gwallau a hepgoriadau yn y llyfr arian parod. Ar ôl i'r rhain gael eu cywiro, dylai unrhyw eitemau cysoni sy'n weddill adlewyrchu'r gwahaniaethau amser rhwng cofnodi trafodiadau gan y

Cyngor a’r adeg pan fyddant yn clirio banc y Cyngor. Dylid cysoni pryd bynnag y bydd y Cyngor yn cael datganiad banc. Mae'n arfer da gwirio'r cysoniad hwn ac yna ei adrodd i'r Cyngor.

47 Adroddodd yr archwilydd mewnol nad oedd cysoniadau yn ystod y flwyddyn wedi'u cynnal, a nododd nifer o drafodiadau anarferol yn ymwneud â thaliadau banc ac iawndal gan y banc am wallau yn y cyfrif. Cynhaliodd y Cyngor gysoniad banc diwedd y flwyddyn ar gais yr archwilydd mewnol.

48 Yn fy marn i, mae methu â chynnal cysoniadau banc cyfnodol yn ddiffyg difrifol o ran rheolaeth fewnol.

# Mae'r Cyngor wedi methu â pharatoi ei gyfrifon blynyddol yn amserol fel sy'n ofynnol o dan Reoliadau 2014

## Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chymeradwyo ei gyfrifon erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn

49 Mae’r gofynion ar gyfer cymeradwyo a chyhoeddi cyfrifon y Cyngor wedi’u gosod mewn statud.

50 O dan Adran 13 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 (Deddf 2004), mae’n rhaid i'r Cyngor:

- lunio ei gyfrifon bob blwyddyn hyd at 31 Mawrth neu unrhyw ddyddiad arall y gall Gweinidogion Cymru ei gyfarwyddo yn gyffredinol neu mewn unrhyw achos arbennig; a
- sicrhau bod ei gyfrifon yn cael eu harchwilio yn unol â Deddf 2004 gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

51 Mae Rheoliad 15 o Reoliadau 2014 yn nodi'r amserlen ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon blynyddol.

52 Mae’n rhaid i Swyddog Cyllid Cyfrifol y Cyngor baratoi ac ardystio bod y cyfrifon yn cyflwyno derbyniadau a thaliad y Cyngor yn briodol, neu'n cyflwyno sefyllfa ariannol ac incwm a gwariant y Cyngor yn deg. Mae’r RFO yn tystio i’r ardystiad drwy lofnodi a dyddio'r datganiadau cyfrifyddu. Gwneir darpariaeth ar gyfer llofnod a dyddiad mewn datganiad blynyddol.

53 Mae’n rhaid i gyfarfod aelodau'r Cyngor yn ei gyfanrwydd ystyried y datganiadau cyfrifyddu ac, yn dilyn yr ystyriaeth honno, gymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu i'w cyflwyno i'r archwilydd drwy benderfyniad y Cyngor; ac ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, sicrhau bod y datganiadau cyfrifyddu yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan yr unigolyn sy'n llywyddu’r cyfarfod pan roddwyd y gymeradwyaeth honno.

54 Mae’n rhaid cwblhau'r camau hyn erbyn 30 Mehefin ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol.

55 Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor gymeradwyo'r datganiad blynyddol, mae’n rhaid ei anfon at yr archwilydd allanol sydd, yn ei dro, yn gorfod cwblhau ei archwiliad erbyn 30 Medi. Crynhoir y broses yn Arddangosyn 2 isod:

**Arddangosyn 2: y broses gyfrifon ac archwilio**

Mae'r cyfrifon a'r trefniadau archwilio yn dilyn y broses a nodir isod.

RFO/Clerc yn paratoi datganiadau cyfrifyddu a Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae archwiliad mewnol yn cwblhau adroddiad archwilio mewnol. Mae’r RFO yn ardystio datganiad (o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol) **cyn 30 Mehefin** ac yn cyflwyno’r datganiad i'r corff.

→

Mae'r corff yn cymeradwyo'r Datganiad Blynyddol erbyn 30 Mehefin. Ceir tystiolaeth o hyn pan fydd y Cadeirydd yn llofnodi'r blwch o dan Ran 2 o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Mae’r RFO/Clerc yn anfon y Datganiad Blynyddol a chopïau ardystiedig o'r dystiolaeth y gofynnwyd amdani i'r archwilydd allanol sy'n gweithredu ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

→

Mae'r archwilydd allanol yn cwblhau archwiliad ac:

↓

Un ai:

Os nad oes angen gwelliannau, mae'n ardystio'r Datganiad Blynyddol ac yn ei anfon yn ôl i'r corff i'w gyhoeddi erbyn 30 Medi.

↓

Neu:

Os oes angen gwelliannau, mae’n adrodd am faterion (gan gynnwys diwygiadau) i'r corff. Mae'r corff yn diwygio'r Datganiad Blynyddol, mae'r RFO yn ei ail-ardystio ac mae'r corff yn ei ail-gymeradwyo cyn ei anfon yn ôl at yr archwilydd. Yna mae'r archwilydd yn ardystio'r Datganiad Blynyddol ac yn ei anfon yn ôl at y corff i'w gyhoeddi erbyn 30 Medi.

Ffynhonnell: Datganiad blynyddol

56 Mae’n rhaid i'r Cyngor hefyd gyhoeddi ei gyfrifon ynghyd ag unrhyw dystysgrif archwilio neu adroddiad erbyn 30 Medi, neu os bydd y cyhoeddiad hwn yn digwydd cyn i'r archwiliad ddod i ben ac nad oes barn o'r fath wedi'i rhoi, mae'n cynnwys datganiad ac esboniad nad yw'r archwilydd, ar ddyddiad ei gyhoeddi, wedi rhoi unrhyw farn.

57 Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer paratoi a chymeradwyo'r cyfrifon.

## Methodd y Cyngor â chydymffurfio â'r amserlenni statudol ar gyfer paratoi a chymeradwyo ei gyfrifon ar gyfer 2018-19

58 Er i gyn-Glerc y Cyngor gael ei atal dros dro o fis Medi 2017 hyd nes iddo gael ei ddiswyddo ym mis Hydref 2019, mae'r Cyngor yn dal i fod yn gyfrifol am gyflwyno cyfrifon i'w harchwilio. Yn ystod cyfnod ataliad y cyn-Glerc, penododd y Cyngor Glercod dros dro.

59 Mae'r Cyngor wedi methu â sicrhau bod y cyfrifon blynyddol yn cael eu paratoi yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer 2017-18 a 2018-19.

**Arddangosyn 3: cymeradwyo'r cyfrifon blynyddol**

Mae'r Cyngor wedi methu â bodloni'r amserlen statudol ar gyfer paratoi, cymeradwyo a chyhoeddi'r cyfrifon blynyddol am ddwy flynedd.

| Gofyniad statudol | 2017-18 | 2018-19 |
|---|---|---|
| RFO i ardystio cyfrifon erbyn 30 Mehefin | Ardystiwyd 9 Hydref 2018. | Cymeradwywyd 8 Hydref 2019. |
| Y Cyngor i gymeradwyo cyfrifon erbyn 30 Mehefin | Cymeradwywyd 24 Medi 2019. | Cymeradwywyd 24 Medi 2019. |
| Y Cyngor i gyhoeddi cyfrifon wedi'u harchwilio, gan gynnwys tystysgrif archwilio erbyn 30 Medi | Cyhoeddwyd y Cyfrifon ar-lein heb y dystysgrif archwilio amodol. | Nid yw'r archwiliad wedi'i gwblhau eto. Ni chyhoeddwyd unrhyw gyfrifon tystiolaeth. |

Ffynhonnell: Datganiadau blynyddol Cyngor Cymuned Sili a Larnog 2017-18 a 2018-19

60 Er bod y Cyngor wedi cyhoeddi ei ddatganiad blynyddol ar-lein ar gyfer 2017-18, nid yw wedi cyhoeddi'r farn archwilio amodol sy'n nodi ei fethiannau o ran bodloni gofynion statudol penodol. Roedd y rhain yn cynnwys methu â pharatoi cyfrifon 2017-18 yn unol â'r Rheoliadau.

# Nid yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn i etholwyr arfer eu hawliau i archwilio'r cyfrifon blynyddol a'r dogfennau ategol

## Mae Deddf 2004 a Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau i etholwyr lleol archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol

61 Mae adran 30 o Ddeddf 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr lleol archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol ar adeg yr archwiliad a gofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon neu wrthwynebu'r cyfrifon.

62 Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod y cyfrifon a'r dogfennau ategol ar gael i'w harchwilio am 20 diwrnod gwaith cyn y dyddiad a benodir gan yr Archwilydd Cyffredinol, er mwyn i etholwyr ofyn cwestiynau iddo neu i wrthwynebu. Mae'n rhaid i'r cyfnod arolygu gael ei hysbysebu drwy hysbysiad a osodir mewn man amlwg ac ar wefan y Cyngor.

63 Yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, mae'r Cyngor yn datgan yn gadarnhaol ei fod wedi rhoi cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion y Rheoliadau.

## Nid yw'r Cyngor wedi darparu tystiolaeth ei fod wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn i etholwyr gael arfer eu hawliau

64 Mae adran 30 o Ddeddf 2004 yn rhoi'r hawl i etholwyr lleol archwilio'r cyfrifon a'r dogfennau ategol ar adeg yr archwiliad a gofyn cwestiynau i'r archwilydd am y cyfrifon neu wrthwynebu'r cyfrifon.

65 Ym mis Hydref 2019, ysgrifennodd y Cadeirydd a'r RFO dros dro ar y pryd, y Cynghorydd Barlow, at fy nhîm archwilio yn Grant Thornton yn datgan 'Nid yw'r Hysbysiad Archwilio sy'n hysbysu etholwyr o'u gallu i arfer eu hawliau yn unol â darpariaethau Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 wedi'i gyhoeddi eto.' Gofynnwyd i'r tîm archwilio roi arweiniad pellach ynghylch pryd y dylid cyhoeddi'r hysbysiad.

66 Rwyf wedi archwilio gwefan y Cyngor ac yn nodi nad yw'r Cyngor wedi rhoi copi o'r hysbysiad gofynnol ar y wefan. Ni ddarparwyd unrhyw dystiolaeth bellach i ddangos bod y Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldeb i wneud trefniadau ar gyfer arfer hawliau etholwyr.

67 Yn fy marn i, nid yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol er mwyn i etholwyr gael arfer eu hawliau. Cyn i mi gwblhau'r archwiliad, byddaf yn penodi dyddiad newydd er mwyn i etholwyr arfer eu hawliau.

# Oherwydd y diffygion a nodwyd yn ystod fy archwiliad, byddaf yn cyhoeddi adroddiad archwilio amodol sy'n nodi na allaf roi barn ar y cyfrifon a bod y Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i sicrhau gwerth am arian

## Mae Deddf 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi ddod i'r casgliad pa un a yw cyfrifon y Cyngor yn cael eu paratoi yn unol â'r Rheoliadau, yn cydymffurfio â gofynion statudol ac y dilynwyd arferion priodol

68 Mae Adran 17 o Ddeddf 2004 yn nodi fy nghyfrifoldebau cyffredinol wrth archwilio cyfrifon y Cyngor. Mae Adran 17 o Ddeddf 2004 yn nodi:

Mae'n rhaid i Archwilydd Cyffredinol Cymru, drwy archwilio'r cyfrifon ac fel arall, fodloni ei hun o'r pethau hyn:

a) bod y cyfrifon yn cael eu paratoi yn unol â rheoliadau o dan adran 39;

b) eu bod yn cydymffurfio â gofynion yr holl ddarpariaethau statudol eraill sy'n berthnasol i'r cyfrifon;

c) bod arferion priodol wedi'u dilyn wrth lunio'r cyfrifon;

ch) bod y corff wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.

## Mae'r diffygion yn y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli mewnol a nodwyd yn ystod yr archwiliad yn golygu na allaf ddod i'r casgliad pa un a yw'r cyfrifon yn gyflawn ac yn gywir ai peidio

69 Nododd fy archwiliad nifer o ddiffygion allweddol sy'n golygu na allaf ddod i'r casgliad bod y cyfrifon yn gyflawn ac yn gywir:

- mae'r diffyg llwybr archwilio digonol sy'n gysylltiedig ag achlysuron o osod y neuadd a chaeau chwarae yn golygu na allaf fod yn fodlon bod yr incwm a gofnodir gan y Cyngor yn gyflawn. Nid oes gan y Cyngor gofnodion priodol ar waith i ddangos pryd y gosodwyd y neuadd a'r caeau chwarae a pha un a yw'r ffioedd gofynnol wedi'u talu'n llawn.
- defnyddiwyd yr arfer o osod y neuadd i ychwanegu at yr arian mân, gan arwain at anghysondebau ym malansau diwedd y flwyddyn. Felly, ni allaf fod yn fodlon bod y balansau diwedd y flwyddyn yn cael eu datgan yn deg.

- mae anghysondebau yng nghofnodion y gyflogres a nodwyd gan yr archwilydd mewnol yn golygu na allaf fod yn fodlon bod taliadau i gyflogeion wedi'u gwneud yn unol â chontractau cyflogaeth. Hefyd, nid oedd y Cyngor yn gallu darparu copïau o gontractau cyflogaeth ar gyfer cyflogeion.

## Oherwydd iddo fethu â dilyn ei Reolau Sefydlog a'i Reoliadau Ariannol ei hun, mae'r Cyngor wedi methu â gwneud trefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau

70 Dywedodd yr archwilydd mewnol wrth y Cyngor fod ei waith archwilio wedi nodi nad yw'r Cyngor yn cael dyfynbrisiau fel mater o drefn ar gyfer eitemau prisiau uchel.

71 Nododd fy ngwaith archwilio nad oedd dyfynbrisiau ar gael gan y Cyngor ar gyfer contractau a osodwyd yn ystod y flwyddyn a oedd yn mynd dros y trothwy a nodwyd gan reolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor.

# Nid yw'r Cyngor wedi sefydlu trefniadau priodol ar gyfer pennu ei gyllideb flynyddol a'i braesept ac ni osododd y Cyngor braesept cyfreithlon ar gyfer 2018-19 na 2019-20

## Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r Cyngor gyfrifo ei ofyniad cyllidebol a'i braesept bob blwyddyn

72 Mae Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (Deddf 1992) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyfrifo a chymeradwyo'r gyllideb flynyddol. Mae adran 41 o Ddeddf 1992 yn caniatáu i gynghorau gyhoeddi praesept, y penderfynir ar ei sail, yn unol ag Adran 50, drwy gyfrifo'r gofyniad cyllidebol.

73 Cyfrifir y gofyniad cyllidebol drwy gymryd cyfanswm yr eitemau canlynol:

a) y gwariant y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn ei ysgwyddo yn ystod y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau;

b) unrhyw lwfans y bydd y Cyngor yn amcangyfrif ei fod yn briodol ar gyfer y cyfrif hapddigwyddiadau am y flwyddyn;

c) y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae'r Cyngor yn amcangyfrif eu bod yn briodol i'w defnyddio yn ystod y flwyddyn ar gyfer cyflawni ei amcangyfrif o wariant yn y dyfodol;

ch) y cronfeydd ariannol wrth gefn sy'n ddigonol i ddiwallu cymaint o'r swm yr amcangyfrifir gan y Cyngor ei fod yn ddiffyg ar gyfer unrhyw flwyddyn ariannol flaenorol nas darparwyd ar ei gyfer eisoes;

d) y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy iddo am y flwyddyn ac eithrio symiau y mae'n amcangyfrif y byddant yn daladwy mewn cysylltiad ag unrhyw braesept a ddyroddir ganddo; a

dd) swm y cronfeydd ariannol wrth gefn y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y bydd yn eu defnyddio er mwyn darparu ar gyfer yr eitemau gwariant a nodir ym mharagraffau a) i ch) uchod.

74 Os yw cyfanswm y gwariant fel y'i cyfrifir uchod o dan eitemau a) i ch) yn fwy na chyfanswm yr adnoddau sydd ar gael fel y'u cyfrifir uchod o dan eitemau d) i dd) mae'n rhaid i'r Cyngor gyfrifo'r swm sy'n hafal i'r gwahaniaeth. Y swm a gyfrifir fel y gwahaniaeth yw ei ofyniad cyllidebol ar gyfer y flwyddyn ac mae'n arwain at y praesept a bennir gan y Cyngor.

75 Ni waeth beth fo'r gofyniad statudol hwn, mae'r gyllideb yn bwysig oherwydd y canlynol:

- mae'n arwain at bennu'r praesept ar gyfer y flwyddyn;
- mae'n caniatáu i'r Cyngor wario arian yn unol â chynlluniau gwariant cymeradwy a rheoliadau ariannol; ac
- mae'n darparu sail ar gyfer monitro cynnydd yn ystod y flwyddyn drwy gymharu gwariant gwirioneddol â gwariant a gynlluniwyd.

76 Mae'r gyllideb yn elfen hanfodol o reolaeth ariannol ac atebolrwydd effeithiol ac, yn y pen draw, mae'n lleihau'r amser y mae cynghorau'n ei dreulio yn rheoli eu hadnoddau ariannol. Mae'n sicrhau bod gan y Cyngor ddigon o gyllid i ddarparu'r gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu ac na chodir praesept gormodol. Heb drefniadau digonol ar gyfer pennu a monitro cyllidebau, ni all cynghorau reoli arian cyhoeddus yn effeithiol a dangos eu bod yn cydymffurfio â gofynion statudol.

77 Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol, mae'r Cyngor yn datgan ei fod wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn.

## Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer pennu'r praesept yn methu'n sylweddol â bodloni gofynion Deddf 1992

78 Mae'n ymddangos na ddarperir cyllideb i'r Cyngor cyn pennu'r praesept.

79 Mewn ymateb i ddogfen sy'n nodi fy nghanfyddiadau drafft, esbonia'r cyn-Gadeirydd:

'Ystyrir Praesept Blynyddol [y Cyngor] bob mis Ionawr yn (a) cyfarfod o Weithgor Cyllid y Cyngor (Gweithgor yw hwn nid Pwyllgor/Is-bwyllgor o ran darpariaethau statud perthnasol) a (b) wedi hynny gan Gyfarfod Eithriadol o'r Cyngor. Yn dilyn y Cyfarfod Eithriadol hwnnw, mae'r Praesept, fel y'i pennwyd gan y broses hon, yn cael ei gyflwyno i Gyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg. Bydd Cofnodion

Perthnasol/dogfennau ategol mewn cysylltiad â phennu'r praesept yn 2019/20, 2018/19 a'r flwyddyn ariannol flaenorol [sic] ar gael gan Glerc presennol y Cyngor.'

80 Mae cofnodion y Cyfarfod Eithriadol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2018 yn cofnodi'r gymeradwyaeth o gyllideb 2018-19 ac yn datgan:

'2017/2018 Ystyried a Chytuno ar y Praesept mewn Cysylltiad â Blwyddyn Ariannol 2018/19

'Cafodd argymhelliad y Gweithgor Cyllid a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2018 y dylid gosod y Praesept mewn cysylltiad â'r Flwyddyn Ariannol 2018/19 ar £89,114 ei gymeradwyo'n unfrydol ac o ganlyniad cytunwyd i hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg o hyn.'

81 Nid wyf wedi gallu nodi unrhyw ystyriaeth o'r praesept ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 yng nghofnodion y Cyngor. Mae cofnodion cyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 yn cofnodi:

'Roedd y Cyngor wedi cytuno, wrth ystyried y Praesept yng Nghyfarfod y Gweithgor Cyllid ar 22 Ionawr 2019, y byddai cynnydd o 5% mewn taliadau llogi i rai sy'n llogi am gyfnod hir a chynnydd i £10 yr awr ar gyfer defnyddwyr achlysurol.'

82 Nid yw'r Cyngor wedi darparu unrhyw gofnodion o gyfarfod y Gweithgor Cyllid. Dylid nodi ei bod yn ofynnol i'r Cyngor gadw cofnodion cyfarfodydd a gynhelir gan unrhyw un o'i bwyllgorau. Ni chyhoeddwyd cofnodion o'r Gweithgor Cyllid. Nid wyf wedi cael copi o unrhyw gyllideb a ystyriwyd yn y Gweithgor Cyllid.

83 Fe'm hysbyswyd gan y cyn-Gadeirydd, y Cynghorydd Barlow, nad yw'r Gweithgor Cyllid yn un o bwyllgorau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod cofnodion y Cyngor o 29 Ionawr 2019 yn cyfeirio at benderfyniad yn cael ei wneud yn y gweithgor yn hytrach na chyfarfod o'r Cyngor. Mae cofnodion y Cyngor yn cofnodi y cafodd argymhelliad y gweithgor ei gymeradwyo ond nid ydynt yn dangos bod y Cyngor wedi ystyried ei gyllideb yn briodol ac, felly, credaf ei fod wedi gweithredu'n afresymol wrth bennu'r praesept.

84 O ganlyniad i'r methiannau hyn, credaf nad oedd y Cyngor wedi gosod ei braesept yn gyfreithlon ar gyfer 2018-19 na 2019-20.

85 Hefyd, nid wyf wedi cael unrhyw dystiolaeth bod y Cyngor yn monitro ei sefyllfa ariannol yn ystod y flwyddyn ariannol. Tynnwyd sylw hefyd at y mater hwn gan yr archwilydd mewnol.

86 Mewn ymateb i ddrafft o fy nghanfyddiadau cychwynnol, dywedodd y cyn-Gadeirydd fod monitro ariannol wedi digwydd yng nghyfarfodydd y Gweithgor Cyllid. Fodd bynnag, nododd y cyn-Gadeirydd hefyd nad yw'r Gweithgor Cyllid yn un o bwyllgorau'r Cyngor ac felly nid oes ganddo awdurdod dirprwyedig i fonitro cyllid y Cyngor. Mae absenoldeb cofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn yn golygu na allaf ddod i'r casgliad pa un a wnaeth y gweithgor fonitro cyllid y Cyngor ai peidio.

# Mae honiadau'r Cyngor yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol yn diystyru canfyddiadau'r Archwilydd Mewnol mewn cysylltiad â rheoli risg

## Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud trefniadau priodol ar gyfer asesu a rheoli risg

87 Mae rheoliad 5 o Reoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sefydlu system o reolaeth fewnol sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. O dan Reoliad 6, mae'n rhaid i system rheoli cyfrifyddu'r Cyngor gynnwys mesurau i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n briodol.

88 Yn ei ddatganiad llywodraethu blynyddol, mae'r Cyngor yn honni'n gadarnhaol ei fod wedi cynnal asesiad o risgiau ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol. Darparwyd y sicrwydd hwn gan y Cyngor ar ôl cael adroddiad yr archwilydd mewnol.

## Mae adroddiad yr archwilydd mewnol yn tynnu sylw at y ffaith nad yw'r asesiad risg wedi'i ddiweddaru ond nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y sicrwydd cadarnhaol a ddarparwyd gan y Cyngor

89 Mewn blynyddoedd blaenorol, nid oedd y Cyngor yn gallu darparu asesiad risg wedi'i ddogfennu i'r archwilydd mewnol.

90 Ar gyfer archwiliad mewnol 2018-19, mae'r archwilydd mewnol yn nodi:

'Gofynnais am gael gweld copi o gofrestr risg y Cyngor ac yn wahanol i 2017/18 cefais gopi gan y Cynghorydd [wedi'i olygu]. Fodd bynnag, roedd yn amlwg bod angen ei diweddaru a byddwn yn argymell bod y gofrestr risg yn cael ei hadolygu'n flynyddol ac mae'n ymddangos nad yw hyn wedi digwydd.

91 Er gwaethaf y sylwadau a wnaed gan yr Archwilydd Mewnol, rhoddodd y Cyngor honiad cadarnhaol yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn fy marn i, mae'r sicrwydd cadarnhaol a roddwyd gan y Cyngor yn camliwio'r camau a gymerwyd gan y Cyngor.

# Atodiad 1

## Honiadau Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Yn ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer 2018-19, mae'r Cyngor yn gwneud cyfres o honiadau cadarnhaol sy'n anghyson â'r dystiolaeth a ddarparwyd i'w harchwilio.

| | Ymateb y Cyngor | Asesiad yr archwiliad | Mae 'Do' yn golygu bod y Cyngor: |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi rhoi trefniadau ar waith ar gyfer:<br>• rheolaeth ariannol effeithiol yn ystod y flwyddyn;<br>• paratoi a chymeradwyo'r datganiadau cyfrifyddu. | Do | Naddo | Yn gosod ei gyllideb yn briodol ac yn rheoli ei arian ac yn paratoi ac yn cymeradwyo ei ddatganiadau cyfrifyddu a ragnodir gan y gyfraith. |
| Rydym wedi cynnal system rheolaeth fewnol ddigonol, gan gynnwys mesurau a gynlluniwyd i atal a chanfod twyll a llygredd, ac wedi adolygu ei heffeithiolrwydd. | Do | Naddo | Wedi gwneud trefniadau priodol a derbyn cyfrifoldeb am ddiogelu'r arian cyhoeddus a'r adnoddau sydd yn ei ofal. |

| | Ymateb y Cyngor | Asesiad yr archwiliad | Mae 'Do' yn golygu bod y Cyngor: |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau ein hunain nad oes unrhyw faterion o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol na phosibl â chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer a allai gael effaith sylweddol yn ariannol ar allu'r Cyngor/Bwrdd/Pwyllgor i gynnal ei fusnes neu ar ei gyllid. | Do | Naddo | Dim ond wedi gwneud pethau y mae ganddo'r pŵer cyfreithiol i'w gwneud ac wedi cydymffurfio â chodau ymarfer a safonau wrth wneud hynny. |
| Rydym wedi rhoi cyfle priodol i etholwyr arfer eu hawliau yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014. | Do | Naddo | Wedi rhoi cyfle i bawb sydd â buddiant i archwilio a gofyn cwestiynau am gyfrifon y corff. |
| Rydym wedi cynnal asesiad o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor ac wedi cymryd camau priodol i reoli'r risgiau hynny, gan gynnwys cyflwyno rheolaethau mewnol a/neu yswiriant allanol lle bo angen. | Do | Naddo | Wedi ystyried y risgiau ariannol a risgiau eraill y mae'n eu hwynebu wrth weithredu'r corff ac wedi ymdrin â nhw yn briodol. |

| | Ymateb y Cyngor | Asesiad yr archwiliad | Mae 'Do' yn golygu bod y Cyngor: |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o ran y cofnodion cyfrifyddu a'r systemau rheoli drwy gydol y flwyddyn ac rydym wedi cael adroddiad gan yr archwilydd mewnol. | Do | Do | Wedi trefnu i unigolyn cymwys, yn annibynnol ar y rheolaethau a'r gweithdrefnau ariannol, roi barn wrthrychol ar pa un a yw'r rhain yn diwallu anghenion y corff ai peidio. |
| Rydym wedi ystyried a yw unrhyw ymgyfreitha, rhwymedigaethau neu ymrwymiadau, digwyddiadau neu drafodiadau, sy'n digwydd naill ai yn ystod neu ar ôl diwedd y flwyddyn, yn cael effaith ariannol ar y Cyngor a, phan fo'n briodol, wedi'u cynnwys yn y datganiadau cyfrifyddu. | Naddo | Naddo | Wedi datgelu popeth y dylai ei ddatgelu am ei fusnes yn ystod y flwyddyn gan gynnwys digwyddiadau sy'n digwydd ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol os yw'n berthnasol. |
| Rydym wedi cymryd camau priodol o ran yr holl faterion a godwyd mewn adroddiadau blaenorol gan archwiliad mewnol ac allanol. | Naddo | Naddo | Wedi ystyried a chymryd camau priodol i fynd i'r afael â phroblemau/gwendidau y tynnwyd ei sylw atynt gan yr archwilwyr mewnol ac allanol. |

| | Ymateb y Cyngor | Asesiad yr archwiliad | Mae 'Do' yn golygu bod y Cyngor: |
|---|---|---|---|
| Rydym wedi mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol fel y bo'n briodol. | Do | Methu â dod i gasgliad | Wedi bodloni gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1989 wrth bennu’r gofyniad cyllidebol a'r praesept ar gyfer y blynyddoedd ariannol. |
| Rydym wedi sicrhau bod rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y Cyngor wedi'u dilyn ar gyfer yr holl drafodiadau perthnasol. | Do | Do | Wedi cadw cofnod priodol o'r grantiau a ddyfarnwyd ac wedi sicrhau bod y gwariant yn gymesur â'r budd i'r gymuned. |
| Mae holl bwyllgorau ac is-bwyllgorau'r cyngor wedi'u sefydlu'n briodol ac wedi cael cylch gorchwyl priodol sy'n nodi'r cyfrifoldebau dirprwyedig i wneud penderfyniadau neu argymhellion. | AMH | AMH | Wedi sicrhau bod y Cyngor, pan fo hynny'n berthnasol, wedi dirprwyo ei gyfrifoldebau i bwyllgorau yn briodol. |

Ffynhonnell: Datganiad Blynyddol Cyngor Cymuned Sili a Larnog 2018-19 a dadansoddiad Archwilio Cymru

Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ
Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
E-bost: info@audit.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.